HINDS,, JOHN DARWIN VIVIAN (1922 - 1981), gwleidydd ac actifydd cymunedol

Enw:, John Darwin Vivian Hinds
Dyddiad geni: 1922
Dyddiad marw: 1981
Rhiant: Leonard Hinds
Rhiant: Gwenllian Hinds (née Lloyd)
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: gwleidydd ac actifydd cymunedol
Maes gweithgaredd: Gwleidyddiaeth a Mudiadau Gwleidyddol
Awdur: Myya Helm

Ganwyd John Darwin Hinds ar 28 Rhagfyr 1922 ym Maerdy, Sir Forgannwg, ac fe'i magwyd yn Stryd Morgan yn y Barri. Roedd ei fam, Gwenllian Hinds (g. Lloyd) yn wraig tŷ a anwyd yn y Barri, a'i dad, Leonard Hinds (1887-1942), yn forwr a ddaethai i'r Deyrnas Unedig o Farbados, ac yn nes ymlaen yn löwr. Gwasanaethodd Leonard fel taniwr ar longau masnachol yn y Rhyfel Byd Cyntaf ac enillodd Fedal Ryfel y Llynges Fasnachol yn 1919, a ddyfarnwyd i'r rhai a fu ar y môr am o leiaf chwe mis ac ar o leiaf un daith drwy barth peryglus. Wedi'r rhyfel, aeth Leonard yn löwr ym Maerdy. Ganwyd iddo ef a Gwenllian chwech o blant, yn cynnwys chwaer hŷn John, Elvira Gwenllian Payne (1917-2007), y fenyw Ddu gyntaf i fod yn gynghorydd yng Nghymru.

Ar ôl gadael yr ysgol dilynodd John Hinds ei dad trwy weithio fel glöwr ym Margoed am rai blynyddoedd. Ond cafodd gyfle wedyn i weithio yn Swyddfa'r Trefedigaethau yn Llundain, profiad a fu'n sbardun i'w ddeffro'n wleidyddol. Ymunodd â'r Blaid Lafur, ac wedi dychwelyd i'r Barri dechreuodd weithio i hyrwyddo galluogi cymdeithasol yn ne Cymru. Cafodd droedigaeth i'r ffydd Islamaidd tua'r un adeg ar ôl bod yn agos at farw o'r ddarfodedigaeth.

Cafodd Hinds yrfa lwyddiannus mewn gwleidyddiaeth leol yng Nghymru. Ef oedd y cynghorydd Du cyntaf a'r cynghorydd Mwslemaidd cyntaf yng Nghymru pan etholwyd ef i Gyngor Tref y Barri yn 1958. Ac yntau'n rhugl ei Gymraeg, roedd yn un o ddim ond tri o gynghorwyr a fedrai'r iaith. Yn 1975, gwnaeth hanes am yr eilwaith drwy fod y maer Mwslemaidd a'r maer Du cyntaf ar Gyngor Sir yng Nghymru (ac ym Mhrydain) pan etholwyd ef yn Faer Bro Morgannwg. Gwasanaethodd ei chwaer Elvira Gwenllian Payne yn Arglwydd Faeres iddo. Roedd ei ymroddiad i actifiaeth gymunedol yn amlwg yn ei ymdrechion i ddatrys amryw broblemau cymdeithasol, gan gynnwys anniogelwch tai. Pleidiodd achos cyfiawnder i'r anabl hefyd trwy ddadlau dros sefydlu cangen leol o'r Gymdeithas Cŵn Tywys i'r Deillion.

Bu John Darwin Hinds farw ar 15 Mawrth 1981. Roedd yn arloeswr a dorrodd rwystrau hil, crefydd, a chynrychiolaeth mewn swyddi cyhoeddus yn ystod ei yrfa. Saif ei etifeddiaeth heddiw yn dyst i gyfraniadau Mwslemiaid Du yng Nghymru, ac mae ei waith arloesol mewn gwleidyddiaeth ac actifiaeth gymunedol wedi llunio gweledigaeth fwy cynhwysol o hunaniaeth Gymreig.

Awdur

Myya Helm

Ffynonellau

'1975...NOT PERHAPS A good year', *The Glamorgan Gazette*, 2 Ionawr 1976, British Newspaper Archive

'Sheltered housing opens in Vale', *The Glamorgan Gazette*, 09 Ionawr 1976, British Newspaper Archive

'The Mayor of the Vale of Glamorgan Borough Council, *The Glamorgan Gazette*19 Medi 1975, British Newspaper Archive

'Llwybr Hanes Cymunedol y Barri – Llwybr a Gwybodaeth Ysgol Uwchradd Pencoedtré, Cyngor Bro Morgannwg

'John D V Hinds in 1923', England & Wales births 1837-2006, Find My Past

'John Darwin Hinds', Black History Wales Resources, 2022

'Cymdeithas Amlddiwylliannol y Barri a Maer Du Cyntaf Cymru', Casgliad y Werin Cymru

J. Baker, 'Opinion: Black lives matter in Wales (with thanks to some white women)', In Common, 6 Awst 2020

P. Alexander, 'The Hinds Family', Black History Stories Wales

'Teulu Hinds / The Hinds Family', Brethyn Cymru

Darllen Pellach

'John Darwin Hinds (1922-1981)', Y Bywgraffiadur Cymreig / Dictionary of Welsh Biography, Casgliad y Werin Cymru

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q125792258

Dyddiad cyhoeddi: 2024-11-25

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu

Arddull APA

×

Helm, M., (2024). HINDS,, JOHN DARWIN VIVIAN (1922 - 1981), gwleidydd ac actifydd cymunedol. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 6 Maw 2025, o https://bywgraffiadur.cymru/article/c15-HIND-DAR-1922

Copïo i'r clipfwrdd

Preifatrwydd a Chwcis
Hawlfraint
Y Prosiect
Cymorth
Cysylltu

LLYFRGELL
THE NATIO